

Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y [Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)
ar [Deintyddiaeth](#)

This response was submitted to the [Health and Social Care](#)
[Committee](#) consultation on [Dentistry](#)

D 13

Ymateb gan: | Response from: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Older
People's Commissioner for Wales





Ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Ddeintyddiaeth

Medi 2022

Rhagymadrodd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (CPHC) yn croesawu'r cyfle i ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Ddeintyddiaeth.

Mae iechyd deintyddol yn rhan bwysig o ansawdd bywyd pobl hŷn. Mae cynnal set o ddannedd ymarferol, cyfforddus a thaclus - naturiol, artiffisial, neu gyfuniad o'r ddau - yn helpu pobl hŷn i fwyta deiet gytbwys a chynnal eu hiechyd a'u lles yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae nifer y bobl sy'n cadw o leiaf rhai o'u dannedd naturiol yn eu henaint wedi bod yn cynyddu'n gyson yn y degawdau diwethaf.¹ Mae hyn yn golygu bod anghenion iechyd y geg mewn pobl hŷn yn newid ac yn dod yn fwyfwy cymhleth. Gall anghenion cymhleth a chydafiachedd yn ddiweddarach mewn bywyd wneud gofal sylfaenol, fel brwsio dannedd, yn her. Mae llawer o bobl hŷn bellach angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd ac adfer dannedd naturiol a dannedd gosod rhannol wedi'u dylunio'n unigol, lle byddai cenedlaethau blaenorol wedi bod angen set lawn o ddannedd gosod i gymryd lle eu holl ddannedd.

Mae adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon "Improving dental health is essential to improving overall health"², yn dangos effaith iechyd y geg gwael ar les corfforol a meddyliol pobl hŷn, gan achosi poen a'i gwneud yn anodd siarad, bwyta a chymryd meddyginiaeth. Mae iechyd y geg gwael hefyd yn gysylltiedig â chyflyrau fel diffyg maeth a niwmonia anadliad. Mae'r Comisiynydd wedi clywed yn ddiweddar gan berson hŷn a ddywedodd ei fod bron â rhoi'r gorau i fwyta oherwydd ei fod yn ofni colli ei ddannedd. Dywedodd un arall na fyddent yn mynd allan heb y dannedd gosod nad oeddynt bellach yn weithredol.

Mae adroddiad Adolygiad Cartrefi Gofal CPHC, "A Place to Call Home"³ a gyhoeddwyd yn 2014, yn nodi diffyg hylendid y geg a mynediad at wasanaethau deintyddol mewn cartrefi gofal. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiynydd yn 2015 gyda chyllid

ychwanegol a rhaglen, “Gwella iechyd y geg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal”⁴ a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol fel Gwên am Byth (A Lasting Smile). Yn 2017 tynnodd adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon sylw at angen brys i wella gofal iechyd y geg i bob person hŷn. Galwodd am fwy o ddadgyfuno data ar oedolion hŷn a nododd y bydd y galw am wasanaethau deintyddol yn cynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio.

Mae gwasanaethau deintyddol wedi'u cwtogi'n ddifrifol gan bandemig Covid-19 ac mae rhaglenni iechyd y geg gan gynnwys Gwên am Byth wedi'u hatal. Mae gweithwyr deintyddol proffesiynol yn pryderu bod y gostyngiad mewn cynhwysedd deintyddol yn ôl pob tebyg (yn absenoldeb data) wedi effeithio'n bennaf ar y rheini sy'n hynod agored i niwed yn glinigol i Covid-19, pobl na allant fforddio triniaeth ddeintyddol, a phobl hŷn,⁵ a bod yr ôl-groniad o bobl agored i niwed sy'n aros am apwyntiadau deintyddol hyd yn oed yn fwy na'r boblogaeth gyffredinol.⁶ Gan fod pobl hŷn mewn mwy o berygl oddiwrth Covid-19 a chan fod bron i un o bob pump o bobl hŷn yng Nghymru yn byw mewn tlogi incwm cymharol,⁷ mae pobl hŷn yn debygol o gynrychioli cyfran sylweddol o'r ôl-groniad o apwyntiadau.

Ers dechrau'r pandemig, mae nifer y bobl hŷn sy'n cysylltu â Thîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd am gymorth i gael mynediad at wasanaethau deintyddol wedi cynyddu. Mae pobl hŷn a'u teuluoedd wedi dweud wrth swyddfa'r Comisiynydd fod methu â chael mynediad at y gofal deintyddol sydd ei angen arnynt yn gwneud eu bywydau'n ddiffas. Mae pobl wedi nodi eu bod yn dioddef anghysur a phoen bob dydd, ac mewn un achos, risg o sepsis, cyflwr sy'n bygwth bywyd. Mae pobl hŷn yn dweud eu bod yn teimlo'n rhwystredig wrth deimlo bod eu dannedd yn mynd yn rhydd tra na allant gael mynediad at ofal deintyddol, a'u bod yn ofnus ac yn gofidio am y posibilrwydd o golli dannedd, coron neu fewnblaniad.

Mae pobl hŷn sydd wedi bod yn ceisio cael mynediad at ofal deintyddol ac sy'n gwybod bod iechyd y geg yn gwaethygu yn dweud eu bod yn teimlo'n agored i niwed, wedi siomi ac yn ysu am gael eu gadael ar eu pen eu hunain yn eu trallod i ddelio â'r broblem o ddod o hyd i ddeintydd i'w helpu. Dywedodd un ymholwr, “Mae wedi cymryd bron i dair blynedd i gael apwyntiad deintyddol ac rwyf bellach wedi cael gwybod bod gen i glefyd y deintgig ac yn debygol o golli fy nannedd i gyd. Rwyf wedi fy nghythraddo ein bod yn cael ein hystyried yn ddibwys oherwydd ein bod yn glaf hŷn yn y GIG. Rwy'n gobeithio, drwy ddwyn hyn i'ch sylw, y bydd yn golygu na fydd yn rhaid i bobl eraill fynd drwy'r profiad hwn.”

I ba raddau y mae mynediad at deintyddiaeth y GIG yn parhau i fod yn gyfyngedig

Mae pobl hŷn sy'n cysylltu â swyddfa'r Comisiynydd am gymorth yn adrodd am anhawster wrth ddod o hyd i deintydd GIG, anhawster wrth drefnu apwyntiadau ac mewn un achos apwyntiad yn cael ei ganslo ar fyr rybudd.

Mae rhai pobl hŷn hefyd yn profi cyfathrebu gwael a diffyg gwybodaeth gan bractisau deintyddol. Dywedodd un person ei fod wedi bod yn galw'r practis bob dydd i ofyn am ddiddymiadau, ac yna'n darganfod yn hwyr mai dim ond dau ddiwrnod yr wythnos yr oedd ei deintydd yn gweithio. Roedd un arall wedi cael ei adael yn eistedd yn yr ystafell aros am amser hir heb unrhyw esboniad. Dywedodd pobl hŷn eraill nad oeddent wedi cael unrhyw atebion i e-byst na cheisiadau am gyngor gan y practis. Pan ofynnodd un holwr am weithdrefn gwyno'r practis, roedd y derbynnydd wedi dweud wrtho am beidio â disgwyl ymateb cyflym.

Mae rhai pobl hŷn wedi'u synnu a'u siomi o weld y gwasanaethau arferol yr oeddent wedi arfer â hwy yn cael eu gwrthod, oherwydd y contract deintyddol newydd a arweinir gan atal⁸, a'r symudiad darbodus sy'n seiliedig ar ofal iechyd oddi wrth ymyriadau megis y digennu a llathru chwe-misol a oedd wedi dod yn norm. Dylid cyfleu newidiadau mewn ymarfer deintyddol yn glir, mewn modd amserol, gofalus a sensitif, fel bod pobl hŷn yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

Gwell gwybodaeth am iechyd y geg

Mae'r Comisiynydd wedi tynnu sylw yn flaenorol at y ffaith bod pobl hŷn mewn perygl o gael eu gwneud yn 'anweledig' i lunwyr polisïau a phenderfyniadau oherwydd diffyg data ystyrlon mewn meysydd allweddol am brofiadau pobl o heneiddio yng Nghymru.⁹ Mae'r Comisiynydd yn bryderus iawn nad yw'n hysbys pa grwpiau poblogaeth sy'n cael archwiliadau rheolaidd a pha grwpiau sy'n cael trafferth cael mynediad at wasanaethau a thriniaeth.¹⁰

Mae'r Comisiynydd yn cytuno ag argymhelliad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon bod angen mwy o ddata ar iechyd y geg yn y boblogaeth hŷn ac ar fynediad pobl hŷn at wasanaethau deintyddol, ac y dylai data ar y garfan pobl hŷn gael ei ddadgyfuno ymhellach fesul band oedran yn Cymru. Dylid casglu data ar iechyd y geg ar lefel y boblogaeth p'run bynnag a yw rhywun yn defnyddio gwasanaethau deintyddol y GIG neu wasanaethau deintyddol preifat.

Yr angen am ymgyrch a ariennir gan y llywodraeth i dawelu meddwl y cyhoedd bod practisau deintyddol yn amgylcheddau diogel

Nid yw rhai pobl hŷn y mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar eu hiechyd corfforol a meddyliol wedi dod ymlaen eto i gael gofal iechyd ac mae rhai yn dal i ofni gadael y tŷ o gwbl. Mae'r Comisiynydd o'r farn na fydd ymgyrch gyhoedduswydd ar bractisau deintyddol fel amgylcheddau diogel, er yn ddefnyddiol, yn ddigon i oresgyn y problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu wrth gyflwyno'u hunain ar gyfer gwasanaethau deintyddol.

Mae rhai pobl hŷn wedi dweud, oherwydd y newid cyson yn y sefyllfa yn ystod y pandemig ac effaith y prinder staff ar wasanaethau deintyddol, nad oes ganddynt y wybodaeth am ba wasanaethau sydd ar gael ar unrhyw adeg, a fyddai'n eu galluogi i wneud apwyntiad. Awgrymodd un ymholwr y dylid darlledu diweddariadau ar argaeledd gwasanaethau deintyddol ar y teledu, gan na fyddai dulliau eraill o gyfathrebu yn eu cyrraedd.

Mae ymholwyr eraill yn adrodd ei bod yn anodd cael cludiant i apwyntiadau deintyddol, gan dynnu sylw at y ffaith bod cyflwyno gwasanaeth bws Fflecsi lleol yn golygu, er eu bod yn gallu archebu taith allan o'u cartref dros y ffôn, na allant drefnu taith yn ôl o'r dref oherwydd nad ydynt yn defnyddio ap Fflecsi, nad oes ganddynt ffôn symudol, neu eu bod yn methu clywed i allu ei defnyddio oherwydd sŵn traffig. Mae'r Comisiynydd yn deall bod Trafnidiaeth Cymru yn sefydlu cyfleuster fel y gall sefydliadau meddygol ac addysgol, archfarchnadoedd a chyrchfannau eraill gael mynediad i'r system i wneud archebion dychwelyd i gwsmeriaid.¹¹ Bydd yn hanfodol cynnwys deintyddion yn y cyfleuster hwn.

Cynhwysedd gwasanaethau deintyddol yn y cartref i bobl hŷn a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal

Canfu adroddiad CHPC "Lle i'w Alw'n Gartref" fod llawer o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn anaml neu byth yn cael mynediad at ddeintydd, a arweiniodd at ddirywiad sylweddol yn iechyd y geg pobl, ac mai anaml y byddai staff gofal yn derbyn hyfforddiant ar hylendid y geg ac felly yn methu â chynnal anghenion iechyd y geg pobl hŷn yn effeithiol, neu ddim yn gwybod sut i nodi problem yr oedd angen ei hatgyfeirio at ddeintydd.

Canfu astudiaeth yn 2015 yn y British Dental Journal ¹² bod gan 72.8% o breswylwyr cartrefi gofal yng Nghymru bydredd dannedd. O gymharu ag oedolion hŷn a archwiliwyd yn yr Arolwg Iechyd Deintyddol Oedolion, roedd preswylwyr yn llai tebygol o frwsio eu dannedd neu ddannedd gosod ddwywaith y dydd (37% o'i gymharu â 63%), yn fwy tebygol o fynd at ddeintydd dim ond pan oedd ganddynt broblem (63% o'i gymharu â 26%), roedd ganddynt

fwy o ddannedd â phydredd gweithredol (3.1% o'i gymharu â 0.9%), roedd gan fwy boen dannedd cyfredol (13% o'i gymharu â 5%) ac afiachusrwydd arall (bywyn agored, wlserau, ffistwla, crawniad 27% o'i gymharu â 10%). Roedd pydredd uchel yn bresennol mewn preswylwyr a dderbyniwyd yn ddiweddar a phreswylwyr tymor hwy. Roedd rhywfaint o amrywiad rhanbarthol yn lefelau hylendid y geg.

Roedd rhaglen gwella iechyd y geg Gwên am Byth (A Lasting Smile) yn weithredol mewn ychydig dros hanner yr holl gartrefi gofal yng Nghymru erbyn 2020.¹³ Cafodd y rhaglen ei hintegreiddio â rhaglen Cartrefi Gofal Cymru Gwelliant Cymru, ac o 1 Ionawr 2020 cynyddodd Llywodraeth Cymru gyfanswm y cyllid i fyrddau iechyd o £249,500 i £500,000, gyda'r disgwyl y byddai'r rhaglen yn rhedeg ym mhob cartref gofal i bobl hŷn yng Nghymru.

Fodd bynnag, gohiriwyd cyswllt wyneb yn wyneb mewn cartrefi gofal ar ddechrau'r pandemig. Mae perthnasau pobl hŷn mewn cartrefi gofal wedi dweud wrth swyddfa'r Comisiynydd fod cartrefi gofal wedi cael anhawster i drefnu apwyntiadau ar gyfer preswylwyr tra bod staff deintyddol cymunedol yn cael eu hadleoli i raglen brechu atgyfnerthu Covid-19. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, apwyntiad ar gyfer preswlydd a oedd wedi cael anaf i'w ddannedd nas gwelwyd. Roedd yr anaf wedi'i lenwi ond roedd y llenwad wedi dod yn rhydd ac nid oedd y cartref wedi gallu trefnu atgyweiriad.

Mewn un achos o bryder penodol, roedd plât deintyddol preswlydd cartref gofal yn llithro, gan dorri ei dant a'i deintgig. Roedd meddyg wedi mynychu, wedi rhagnodi gwrthfotigau ac wedi gofyn am apwyntiad deintyddol brys. Fodd bynnag, roedd y preswlydd wedi'i chofrestru â phractis deintyddol preifat nad oedd wedi'i yswirio ar gyfer ymweliadau y tu allan i safle'r practis. Ni wnai deintydd brys y GIG fynychu oherwydd y sefyllfa Covid-19 ac oherwydd nad oedd y preswlydd yn bodloni eu meini prawf. Dywedodd aelod o deulu'r preswlydd fod teithio y tu allan i'r cartref gofal yn beryglus i'r preswlydd oherwydd ei chyflwr meddygol, felly roedd hi'n gorfod parhau â'r plat, a oedd yn ei hanafu a'i rhoi mewn perygl o sepsis.

Nid yw'n dderbyniol y dylai unrhyw berson hŷn gael ei adael i ddisgyn i'r bwlch rhwng deintyddiaeth y GIG a deintyddiaeth breifat yn y modd hwn, pan fyddant yn profi anaf ac mewn perygl o salwch difrifol a marwolaeth. Dylai Byrddau Iechyd weithio gyda phractisau deintyddol i nodi pobl hŷn yn eu hardaloedd sydd yn y sefyllfa hon, a sicrhau eu bod yn gallu derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, clywodd swyddfa'r Comisiynydd yn ddiweddar gan ymholwr yr oedd ei gŵr, sy'n byw mewn cartref gofal, wedi cael ymweliad gan ddeintydd GIG a nyrs ddeintyddol, a ddefnyddiodd y gadair a'r golau darllen yn ei ystafell i gynnal ymgynghoriad deintyddol. Fodd bynnag, dim ond trwy gysylltu â'i AS y llwyddodd yr holwr i sicrhau'r ymweliad hwn. Mae'r Comisiynydd yn bryderus iawn ynghylch mynediad at wasanaethau i bobl hŷn nad oes ganddynt neb yn gallu eiriol drostynt yn y modd hwn.

Yn ogystal, yn ei hadroddiad gweithredu ar gyfer 2019-20, roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi lefelau cyflog gwael a chontractau ansicr gweithwyr gofal, ynghyd a darnio'r sector cartrefi gofal, fel rhwystrau i'r rhaglen. Mae'r pwysau ar y system wedi cynyddu ers hynny. Ni fydd materion yn ymwneud â chynhwysedd mewn gwasanaethau deintyddol mewn cartrefi gofal yn cael sylw drwy ganolbwyntio ar gynhwysedd gwasanaethau deintyddol yn unig. Rhaid i'r system gofal cymdeithasol ehangach hefyd gael yr adnoddau sydd eu hangen arni i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau deintyddol i bobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn hanfodol bod rhaglen Gwên am Byth yn cael ei hadfer cyn gynted â phosibl. Os bydd staff y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn cael eu hadleoli eto i raglen frechu Covid-19, dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyfuno brechu a gwiriadau deintyddol mewn cartrefi gofal.

I ba raddau y mae cleifion (yn enwedig cleifion risg isel) yn dewis gweld ymarferwyr preifat

Mae sawl person hŷn a gysylltodd â swyddfa'r Comisiynydd wedi dweud eu bod wedi cael triniaeth breifat yn y pen draw oherwydd nad oeddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau'r GIG. Mae rhai yn sôn am anhawster dod o hyd i wybodaeth am bractisau preifat lleol, gan nad yw'r bwrdd iechyd yn darparu rhestr.

Mae angen i'r ystod o wasanaethau deintyddol GIG sydd ar gael i bobl hŷn gyd-fynd ag angen cynyddol pobl hŷn am ddannedd gosod rhannol mwy cymhleth, a gwaith cynnal a chadw cysylltiedig. Mae'r Comisiynydd wedi clywed gan un person hŷn, er enghraifft, gyda mewnbaniadau deintyddol wedi'u hariannu drwy drefniant hybrid, nad oedd wedi gallu dod o hyd i ddeintydd a fyddai'n cynnal y mewnbaniad ar ôl iddi symud tŷ. Roedd yr ymholwr wedi colli llawer o ddannedd ac roedd wedi talu am ddeunyddiau a gweithgynhyrchu ei mewnbaniad, tra bod ei deintydd GIG wedi darparu'r ffitiad yn ddi-dâl. Nid oedd hi wedi ystyried ar y pryd a oedd hi'n "mynd yn breifat" drwy wneud hyn. Symudodd yr ymholwr a'i gŵr yn nes at eu plant wedi hynny ond o fewn yr un ardal Bwrdd Iechyd. Roedd hi bellach y tu allan i gwmpas y GIG ac yn wynebu taith gron o 130 milltir ar gyfer gwasanaethu rheolaidd ac ail-osod oherwydd nad oedd hi na'r Bwrdd Iechyd wedi gallu dod o hyd i ddeintydd i wneud y gwaith yn nes at ei chartref. Roedd yr ymholwr yn poeni am y dyfodol, gyda'r daith yn mynd yn anoddach wrth iddi hi a'i gŵr dyfu'n hŷn. Roedd hi'n ofni beth fyddai'n digwydd pan fyddai ei deintydd yn ymddeol, ac nid oedd neb i helpu. Nid oedd yn deall pam nad oedd yn ymddangos bod gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd gofal a pharhad gwasanaeth ac nid oedd ganddi "unrhyw synnwyr gan y Bwrdd Iechyd bod person dynol bregus, oedrannus yn ganolog i hyn i gyd." Roedd hi'n meddwl y dylai'r ateb orwedd gyda'r GIG ac nid gyda'r claf.

Mae'r Comisiynydd yn cytuno. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr ystod o wasanaethau deintyddol y GIG yn cadw i fyny ag anghenion newidiol pobl hŷn. Yn y cyfamser, ni ddylai fod yn dderbyniol i Fwrdd Iechyd Fethu â darparu'r gofal sydd ei angen arni i berson hŷn o fewn pellter teithio rhesymol pan nad yw hi'n gallu ei gael ei hun. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod y gwaith yn cael ei wneud gan ddeintydd GIG ac nad oedd yr ymholwr yn deall ar y pryd a oedd ei thriniaeth yn GIG neu'n breifat, a phan nad oedd yn deall goblygiadau hirdymor trefniant penodol. Dylai byrddau iechyd weithio gyda phractisau deintyddol i nodi unrhyw bobl hŷn eraill yn eu hardaloedd a allai fod yn y sefyllfa hon, a chynnig ateb iddynt.

Effaith yr argyfwng costau byw ar ddarpariaeth a mynediad at wasanaethau deintyddiaeth yng Nghymru

Mae'r Comisiynydd yn gwybod bod llawer o bobl hŷn ledled Cymru yn bryderus iawn am yr argyfwng costau byw a'r ffyrdd y bydd hyn yn effeithio ar eu bywydau.

Mae nifer o ymholwyr wedi codi'r pwnc o fforddiadwyedd triniaeth ddeintyddol breifat gyda swyddfa'r Comisiynydd. Dywedodd un eu bod yn talu £47 am lanhau cyfnodol ar y GIG, ac mai'r ffi am lanhau preifat oedd £120. Roedd un ymholwr wedi'i siomi o ganfod bod rhywun arall mewn tref arall wedi talu llai am yr un driniaeth mewn practis preifat gwahanol.

Roedd ymholwr arall yn gymwys i gael gofal deintyddol am ddim gan ei bod yn derbyn Credyd Pensiwn. Roedd ei deintydd GIG wedi atal gofal arferol oherwydd y pandemig ond roedd wedi dweud y gallai gael ei gweld fel claf preifat am leiafswm o £15 y mis. Fel derbynnydd Credyd Pensiwn roedd hyn y tu hwnt i'w chyrhaedd. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod atal gofal deintyddol ar gyfer y tlotaf mewn cymdeithas a sicrhau ei fod ar gael i eraill sy'n gallu fforddio ffi yn anghyfartal, a'i fod yn ehangu anghydraddoldebau iechyd.

Yn ogystal â chost gofal deintyddol ei hun, cwynodd ymholwyr hefyd eu bod wedi darganfod yn hwyr nad oedd y rhif ffôn 0300 i archebu bws Fflecsi i gyrraedd eu hapwyntiad, am ddim. Tynnodd yr ymholwyr sylw at y ffaith eu bod, gyda'r gwasanaeth bws a drefnwyd, yn cadw at yr amserlen ac yn defnyddio eu tocyn bws am ddim.

Mae'r Comisiynydd wedi galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i bobl hŷn ac i gyflawni newid strwythurol tymor hwy i sicrhau bod Pensiwn y Wladwriaeth a hawliadau ariannol eraill yn cadw i fyny â chostau cynyddol a chwyddiant, ac yn darparu lefel ddigonol o incwm i bobl hŷn. Mae hi hefyd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach tloti ac i ddarparu cyllid i grwpiau cymunedol ac elusennau i ddarparu cymorth, yn enwedig drwy nodi ac estyn allan at bobl hŷn y gallai fod angen cymorth arnynt, i wneud yn siŵr nad ydynt yn mynd heb fwyd

maethlon a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol. Ym marn y Comisiynydd, mae iechyd a gofal deintyddol da yn rhagofynion ar gyfer mwynhau deiet iach ac ar gyfer cyflwyno eich hun yn hyderus i eraill, a rhaid iddynt fod ar gael yn ôl yr angen, nid y gallu i dalu.

Casgliad ac argymhellion

Mae iechyd a gofal deintyddol yn hanfodol i ansawdd bywyd pobl hŷn. Mae'r Comisiynydd wedi gweld bod nifer yr ymholiadau y mae'n eu derbyn gan bobl hŷn nad ydynt yn gallu cael gafael ar y gofal sydd ei angen arnynt wedi codi ers pandemig Covid-19. Ni ddylai pobl hŷn gael eu gadael ar eu pen eu hunain, mewn poen ac anghysur, oherwydd diffyg deintyddiaeth y GIG na allant yn bersonol ddod o hyd i unrhyw ateb ymarferol ar ei gyfer.

Mae'r Comisiynydd yn argymhell y canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru gasglu data ar lefel y boblogaeth ar iechyd y geg pobl hŷn, p'run bynnag a ydynt yn defnyddio gwasanaethau deintyddol y GIG neu wasanaethau deintyddol preifat, neu ddim gwasanaeth o gwbl. Dylid dadgyfuno'r data fesul band oedran o fewn y garfan gyffredinol o bobl hŷn yng Nghymru;
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr ystod o wasanaethau deintyddol GIG sydd ar gael i bobl hŷn yn cyd-fynd â'u hanghenion newidiol am ddannedd gosod mwy cymhleth a gwaith cynnal a chadw cysylltiedig;
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob person hŷn yn gallu cael mynediad at driniaeth ddeintyddol briodol, fforddiadwy, o ansawdd da, yn seiliedig ar angen ac nid ar y gallu i dalu, ac nad oes unrhyw un yn syrthio drwy'r bwlch rhwng darpariaeth gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru yn y dyfodol;
- Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid i grwpiau cymunedol ac elusennau i ddarparu cymorth, yn arbennig drwy nodi ac estyn allan at bobl hŷn y gallai fod angen cymorth arnynt, i wneud yn siŵr nad ydynt yn mynd heb yr iechyd a'r gofal deintyddol sydd eu hangen arnynt i fwynhau deiet iach a rhyngweithio cymdeithasol hyderus;
- Dylai Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru sicrhau nad yw diffyg mynediad at dtrafnidiaeth yn rhwystr i bobl hŷn gael mynediad at wasanaethau deintyddol. Dylai Trafnidiaeth Cymru gynnwys practisau deintyddol mewn unrhyw gyfleuster newydd ar gyfer archebu teithiau dwyffordd ar fysiau Fflecsi i bobl hŷn sy'n ymweld â'r deintydd;
- Dylai Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ailsefydlu rhaglen Gwên am Byth cyn gynted â phosibl a sicrhau bod gan y cartrefi gofal eu hunain ddigon o adnoddau i gefnogi cyflawni'r rhaglen. Os caiff staff y Gwasanaeth

Deintyddol Cymunedol eu hadleoli i'r rhaglen frechu, dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyfuno'r ddau;

- Dylai Byrddau Iechyd weithio gyda phractisau deintyddol i nodi unrhyw un yn eu hardaloedd nad ydynt yn gallu sicrhau'r gwasanaethau deintyddol sydd eu hangen arnynt eu hunain, a chynnig datrysiaid parhaol o'u hanawsterau mor agos â phosibl at ble maent yn byw;
- Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod gan bobl hŷn wybodaeth ddibynadwy a chyfredol am y gwasanaethau deintyddol sydd ar gael;
- Dylai Byrddau Iechyd a phractisau deintyddol gyfathrebu ac egluro'r tueddiad tuag at ofal deintyddol darbodus a arweinir gan atal, a'r hyn y dylai pobl ei ddisgwyl gan eu practis deintyddol mewn modd amserol, gofalus a sensitif;
- Dylai practisau deintyddol gyfathrebu â phobl hŷn a darparu gwybodaeth iddynt mewn modd amserol, clir a defnyddiol, gan gydnabod amrywiaeth eu hanghenion cyfathrebu.

References

¹ Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (2017) "Improving dental health is essential to improving overall health" Ar gael (Saes.) yn: [Improving oral health in older people | British Geriatrics Society \(bgs.org.uk\)](https://www.bgs.org.uk/improving-oral-health-in-older-people)

² Ibid

³ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, "Lle i'w Alw'n Gartref?" (2014) Ar gael yn: [Lle i'w Alw'n Gartref - Adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru](https://www.comisiynyddph.cymru/newyddion/blog-y-comisiynydd-arolwg-cenedlaethol-2021-22/)

⁴ Llywodraeth Cymru (2015) "Gwella iechyd y geg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal (WHC/2015/001)" Ar gael yn: [Gwella iechyd y geg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal \(WHC/2015/001\)](https://www.llywodraeth.cymru/gwella-iechyd-y-geg-i-bobl-hyn-syn-byw-mewn-cartrefi-gofal)

⁵ Cyngor Deintyddol Cyffredinol (2020) "The impact of COVID-19 on dental professionals 2020" Ar gael (Saes.) yn: [The impact of COVID-19 on dental professionals 2020 \(gdc-uk.org\)](https://www.gdc-uk.org/the-impact-of-covid-19-on-dental-professionals-2020)

⁶ Cymdeithas Ddeintyddol Prydain (2021) "Bridging the Gap: Tackling Oral Health Inequalities" Ar gael (Saes.) yn: [BDA-Wales-Manifesto-2021.pdf](https://www.bda-wales.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/BDA-Wales-Manifesto-2021.pdf)

⁷ Llywodraeth Cymru (2021) Relative income poverty: April 2019 to March 2020. Ar gael (Saes.) yn: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/householdbelowaverageincomeby-year>

⁸ Llywodraeth Cymru (2022) Datganiad Ysgrifenedig: Diwygio Contractau Deintyddol yn 2022-23. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diwygio-contractau-deintyddol-yn-2022-23>

⁹ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2022) "Beth mae'r Arolwg Cenedlaethol yn ei ddweud (a ddim yn ei ddweud) wrthym am brofiadau pobl o heneiddio yng Nghymru" Ar gael yn: <https://comisiynyddph.cymru/newyddion/blog-y-comisiynydd-arolwg-cenedlaethol-2021-22/>

¹⁰ Ymchwil Senedd (2022) "Deintyddiaeth Rhan 1 – A allwch chi gael gofal deintyddol pan fydd ei angen arnoch?" Ar gael yn: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/deintyddiaeth-rhan-1-a-allwch-chi-gael-gofal-deintyddol-pan-fydd-ei-angen-arnoch/>

¹¹ Trafnidiaeth Cymru a Transport Focus (2022) "fflecsi – profiad o drafnidiaeth seiliedig ar alw yng Nghymru" Ar gael yn: [fflecsi— profiad o drafnidiaeth seiliedig ar alw yng Nghymru](https://www.transportfocus.org.uk/fflecsi-profiad-o-drafnidiaeth-seiliedig-ar-alw-yng-nghymru)

¹² Karki, Monaghan a Morgan (2015) "Oral health status of older people living in care homes in Wales" Ar gael (Saes.) yn: [Oral health status of older people living in care homes in Wales | British Dental Journal \(nature.com\)](https://www.nature.com/articles/nature04444)

¹³ Llywodraeth Cymru (2020) "Gwella iechyd y geg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal" Ar gael yn: [lechyd y geg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal: adroddiad 2019 i 2020](https://www.llywodraeth.cymru/gwella-iechyd-y-geg-i-bobl-hyn-syn-byw-mewn-cartrefi-gofal)

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar ystod eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn trwy ei thîm gwaith achos, ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir arnynt. Ategir rôl y Comisiynydd gan set o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dwyn i gyfrif pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn cymryd camau i roi terfyn ar ragfarn ar sail oed a gwahaniaethu ar sail oed, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd eisiau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Gwefan: <https://comisiynyddph.cymru>

Twitter: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)